

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Polisi Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar ddydd Mercher, Chwefror 5<sup>ed</sup>, 2020 am 7.05 yh.**

**Presennol**

Cynghorwyr            D. Hopkins            P. H. Roberts            Mrs K.D.L Davies  
                                 R.A. Davies

**Ymddiheuriadau**

Cynghorwyr            I. Rh. Llewelyn            C.J Harris

**677.**

**Adolygiad o'r Polisiâu a'r Dogfennau**

(i) Rhestr Asedau – roedd y Clerc wedi adolygu'r rhestr ac ni ychwanegwyd unrhyw ddiwygiad.

(ii) Roedd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg wedi archwilio Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor yn ystod mis Rhagfyr, 2019, a chymeradwy-wyd cynnwys y polisi.

**Argymhellwyd** mabwysiadu'r polisi.

(ii) Cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch – roedd y cwmni a gontractiwyd gan y Cyngor i gynnal profion dŵr wedi argymhell bod y Cyngor yn mabwysiadu polisi Hylendid Dŵr, yn rhestru'r ffyrdd y mae'n sicrhau diogelwch dŵr yn y pafiliynau a'r cyfleusterau cyhoeddus. Roedd y Clerc wedi llunio polisi addas ac **argymhellwyd** mabwysiadu'r polisi.

(ii) Archwiliwyd yr holl ddogfennau a pholisiâu eraill, ac **argymhellwyd** bod y rhain yn aros yn ddigyfnewid, fel y cytunwyd yn Chwefror 2019.

**678.**

**Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau**

Roedd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Parciau ac Ardaloedd Chwarae wedi'i ail-ddrafftio i gynnwys cynyddu nifer aelodau'r pwyllgor o 3 i 7 aelod, yn ogystal â'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, fel y cytunwyd yn y cyfarfod Statudol a gynhaliwyd ym mis Mai, 2019. Mae holl eiriad arall y Cylch Gorchwyl yn aros yn ddigyfnewid.

Roedd y Clerc wedi cynnal adolygiad o Gylch Gorchwyl yr holl Bwyllgorau eraill, ac **argymhellwyd** eu mabwysiadu a'u cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.

**679.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.20 yh.